

COFRESTR RISG CYMUNEDOL Gogledd Cymru



PREPARING FOR EMERGENCIES



Cynnwys

CYFLWYNIAD	4
Y FFLIW	6
LLIFOGYDD	8
TYWYDD GARW	10
DAMWEINIAU DIWYDIANNOL	12
COLLI SEILWAITH HANFODOL	14
GLEFYDAU ANIFEILIAID	16
LLYGREDD	18
DIGWYDDIADAU GLUDIAN	20
BOD YN BAROD YN Y CARTREF	22
BUSNESAU SY’N BAROD	24
MANYLION CYSWLLT I GAEL RHAGOR O WYBODAETH	26



CYFLWYNIAD

Mae Cofrestr Risgiau Cymunedol Gogledd Cymru yn darparu gwybodaeth am yr argyfyngau mwyaf a all godi yn ein rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar bobl, eu cartrefi, yr amgylchedd a busnesau lleol. Adolygir y risgiau hyn yn rheolaidd.

Mae'r Gofrestr Risgiau wedi ei llunio gan Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r prif asiantaethau sy'n ymwneud ag ymateb i argyfyngau - y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, sefydliadau iechyd a'r amgylchedd a'r cwmnïau gwasanaethau.

Ei bwrpas cyffredinol yw sicrhau cydweithrediad yr asiantaethau i sicrhau parodrwydd digonol i ymateb i argyfyngau a all gael effaith arwyddocaol ar gymunedau Gogledd Cymru.

Proffil o Ogledd Cymru:

Mae Gogledd Cymru ar ochr orllewinol Ynysoedd Prydain ac yn ffinio tua'r gogledd a'r gorllewin â Môr Iwerddon, tua'r dwyrain â Lloegr (Swydd Caer a Sir Amwythig) a thua'r de â Chanolbarth Cymru (siroedd Powys a Cheredigion).


Arwynebedd tir Gogledd Cymru yw tua 6,172 cilometr sgwâr (29% o holl arwynebedd tir

Cymru), ac mae'r morlin bron 250 milltir (400km) o hyd.

Mae Gogledd Cymru wedi'i rannu'n chwe ardal Awdurdod Unedol - Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Cyfanswm poblogaeth breswyl Gogledd Cymru yw 687,800 (data o Gyfrifiad 2011). Ceir y

rhan fwyaf o'r boblogaeth yn yr ardaloedd mwy diwydiannol a threfol yn y Gogledd-ddwyrain ac ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Bydd y boblogaeth yn fwy o lawer yn ystod misoedd yr haf. Llai na chwarter (22.83%) o boblogaeth Cymru gyfan sy'n preswyl yng Ngogledd Cymru.



Ar y tudalennau sy'n dilyn, byddwn yn edrych ar y prif risgiau yr ydym yn eu hwynebu yng Ngogledd Cymru; yn egluro ein cynlluniau ar gyfer delio â'r argyfyngau posibl hyn ac yn darparu cyngor ar y ffordd y gallwch baratoi ar eu cyfer.



FFLIW PANDEMIG

Bydd pandemig yn digwydd pan fydd feirws fflw newydd sydd a'r gallu i ledaenu o berson i berson. Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl imiwneidd iddo, a'r feirws hwnnw'n ymledu ar draws nifer o wledydd.

Gall niferoedd mawr o bobl gael eu heintio gan feirws newydd mewn cyfnod cymharol fyr.

Yn wahanol i feirws fflw arferol, sy'n dymhorol, gall pandemig

ffliw ddigwydd ar unrhyw adeg. Rydym yn gwybod, ar sail gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y gorffennol, fod pandemig yn debygol o ddigwydd ar ffurf un don neu nifer o donnau a all fod yn wythnosau neu'n fisoedd ar wahân.

Roedd y ffordd yr ymledodd y Fflw Moch yn 2009 yn dangos na ellir rhagweld effaith pandemig. Salwch cymharol ysgafn a gafodd y rhan fwyaf o bobl yn ystod y pandemig hwn.

Goblygiadau:

Gall miliynau lawer o bobl gael eu heintio o gwmpas y byd. Byddai cymaint â hanner poblogaeth y DU yn gallu cael ei heintio a gellir cael rhwng 50,000 a 750,000 o farwolaethau ychwanegol erbyn diwedd y pandemig.

Mae'n debygol y bydd ymyrraeth fawr â bywyd pob dydd o ganlyniad i brinder staff, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys cynhyrchu a dosbarthu nwyddau.



Beth rydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- ◆ Mae'r GIG wedi sefydlu trefniadau ar y cyd â phartneriaid amlasiantaethol, i reoli'r galw cynyddol am wasanaethau gofal iechyd ac i ddosbarthu meddyginiaethau ac i frechu'r rheini mewn peryg, mor fuan a chynhyrchir brechiad addas, os ceir pandemig.
- ◆ Mae cynlluniau a gweithdrefnau'n cael eu profi a'u hadolygu a gweithredir y gwelliannau sy'n cael eu hadnabod.



Pethau y gallwch chi eu gwneud:

- ◆ Cadw'n iach - mae ffordd iach o fyw yn amddiffyniad da rhag y fflw a mathau eraill o salwch.
- ◆ Pennu 'ffrind fflw' - rhywun a fydd yn casglu'ch meddyginiaeth, eich bwyd a chyflenwadau eraill os byddwch yn dal y fflw.
- ◆ Gofalu eich bod yn cael eich brechiadau fflw tymhorol, os ydych yn gymwys.
- ◆ Er mwyn peidio â thaenu germau, cuddiwch eich ceg a'ch trwyn wrth disian a golchwch eich dwylo wedyn.



LLIFOGYDD

Mae llifogydd wedi'u dynodi'n risg uchel iawn yn ardal Gogledd Cymru, ac mae eiddo ar draws y rhanbarth mewn perygl o lifogydd.

Fel y gwelwyd yng Ngogledd Cymru ar ddiwedd 2013 a dechrau 2014, mae ymchwyddau storm sy'n codi lefelau'r penllanw yn gallu effeithio ar nifer o gymunedau ar yr arfordir gan arwain at orlifo dros amddiffynfeydd môr presennol a llifogydd mewn eiddo preswyl a masnachol.

Mae hefyd perygl o lifogydd o afonydd, o ganlyniad i ormoddedd o law.

Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol ar fywyd pob dydd pan fydd llifogydd yn taro, a'r posibilrwydd y bydd pobl yn gorfod gadael eu cartrefi, gall y gwaith adfer ar ôl llifogydd mawr para am gyfnod hir wedi i'r lefelau dŵr ostwng.

Gan fod amcanestyniadau o'r newid yn yr hinsawdd yn dangos y gallwn ddisgwyl stormydd amlach a gwaeth a chynnydd yn lefelau'r môr, mae'n debygol y bydd llifogydd arfordirol yn fwy cyffredin yn y dyfodol.

Goblygiadau:

Gall y goblygiadau gynnwys:

- ◆ Difrod i fywyd (pobl ac anifeiliaid).
- ◆ Difrod i eiddo, busnesau, tir amaethyddol, ffyrdd, strwythurau ac is-adeiledd.
- ◆ Cau ffyrdd ac ymyrryd â theithio.
- ◆ Llygredd amgylcheddol.
- ◆ Difrod tymor hir i dwristiaeth, busnesau ac amaethyddiaeth.



Beth rydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- ◆ Monitro rhagolygon a darparu rhybuddion amserol i'r rheini sydd mewn perygl.
- ◆ Cynllunio strategol i ddiogelu'r ardaloedd sydd mewn perygl a chynnal amddiffynfeydd môr.
- ◆ Cydweithio i leihau'r ymyrraeth â gwasanaethau hanfodol.



Beth ddylech chi ei wneud?

- ◆ Cael gwybod a yw'ch cartref mewn perygl oddi wrth lifogydd ac ymuno â chynllun er mwyn derbyn rhybuddion am lifogydd dros y ffôn, drwy neges destun neu'r e-bost.
- ◆ Ystyried sut y gallwch ddiogelu'ch eiddo'ch hun ac, os oes digon o amser ac os yw'n ddiogel i chi wneud hynny, gosod unrhyw gyfarpar atal llifogydd sydd gennych.
- ◆ Holi'ch cwmni yswiriant i sicrhau bod eich yswiriant yn cynnwys llifogydd.
- ◆ Os yw'n bosibl, symud eitemau gwerthfawr i lawr uwch pan fo perygl o lifogydd.
- ◆ Gwirio rhagolygon y tywydd a chymryd sylw o rybuddion.
- ◆ Gwirio bod cymdogion a pherthnasau hyn yn ddiogel, os yw hi'n ddiogel i wneud hynny.
- ◆ Ymweld â gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru am gyngor a gwybodaeth.



TYWYDD GARW

Mae tywydd garw yn gallu achosi problemau sylweddol ac amharu ar ein bywyd pob dydd.



Y prif fathau o dywydd garw yr ydym yn cynllunio ar eu cyfer yw stormydd a thymhestloedd; tymheredd isel pan geir eira trwm neu rew; a thywydd poeth.

Cafwyd nifer o'r mathau uchod o dywydd garw yng Ngogledd Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae rhagolygon yn awgrymu bod tywydd garw yn debygol o fod yn fwy cyffredin yn y dyfodol.

Goblygiadau:

- ◆ Ymyrryd â theithio.
- ◆ Perygl i bobl ddiameddiffyn / yr henoed yn gallu dioddef sgil effeithiau'r oerfel neu boethder.
- ◆ Amharu ar gyflenwadau pŵer / dŵr / gwasanaethau.
- ◆ Cau ysgolion.
- ◆ Pobl yn disgyn.
- ◆ Damweiniau.



Beth rydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- ◆ Monitro rhagolygon y tywydd drwy'r flwyddyn.
- ◆ Cydweithio i leihau'r ymyrraeth â gwasanaethau hanfodol.
- ◆ Dylunio a chynllunio ein gwasanaethau fel y byddant yn gydnerth.
- ◆ Graeanu/ clirio ffyrdd.



Beth ddylech chi ei wneud?

- ◆ Gwirio rhagolygon y tywydd a chymryd sylw o rybuddion.
- ◆ Cynllunio'ch teithiau / gweithgareddau'n unol â hynny.
- ◆ Gwirio bod cymdogion a pherthnasau bregus yn ddiogel.
- ◆ Cymerwch gamau i gadw'n gynnes.



DAMWEINIAU DIWYDIANNOL

Gellir cael damweiniau diwydiannol ar safleoedd a reoleiddir neu mewn cysylltiad â cherbydau neu longau sy'n cludo deunyddiau diwydiannol drwy ardal Gogledd Cymru.

Rhai digwyddiadau posibl yw ffrwydradau diwydiannol a thanau mawr, rhyddhau deunydd gwenwynig neu ymbelydrol neu lygredd môr. Gall y rhain achosi anafiadau difrifol i'r cyhoedd a difrod i'r amgylchedd lleol.

Cyflawnir llawer o waith i atal damweiniau diwydiannol a lleihau eu heffeithiau:

- ◆ Mae Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr

yn ceisio atal damweiniau mawr sy'n gysylltiedig â sylweddau peryglus a chyfyngu'r effeithiau ar y cyhoedd a'r amgylchedd.

- ◆ Ceir dwy orsaf bŵer niwclear yng Ngogledd Cymru ac mae'r rhain yn ddarostyngedig i Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd) 2001.
- ◆ Mae Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996 yn gymwys i biblinellau gwasgedd uchel sy'n creu Peryglon Damweiniau Mawr sy'n croesi Gogledd Cymru.

Goblygiadau:

- ◆ Risgiau i iechyd y cyhoedd.
- ◆ Llygru'r amgylchedd naturiol.
- ◆ Difrod posibl i eiddo a'r ardal leol.
- ◆ Effaith bosibl ar dwristiaeth a busnesau lleol.



Beth rydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- ◆ Cydweithio â gweithredwyr safleoedd i ddatblygu cynlluniau ymateb a gwybodaeth benodol i gymunedau cyfagos am y camau i'w cymryd os ceir damwain.
- ◆ Hwyluso ymarferiadau rheolaidd i roi prawf ar drefniadau ar safleoedd a'r tu allan iddynt a phennu safleoedd a all achosi perygl a datblygu gweithdrefnau ymateb amlasiantaethol.



Beth ddylech chi ei wneud?

- ◆ Bod yn effro os ydych yn byw gerllaw safle diwydiannol a chymryd sylw o unrhyw neges a gewch gan weithredwyr safleoedd. Dilyn y cyfarwyddiadau hynny ac aros am fwy o wybodaeth.
- ◆ Os byddwch yn clywed rhybudd am argyfwng, ewch i mewn i'ch cartref, a throi at yr orsaf radio leol / cyfryngau cymdeithasol i gael mwy o wybodaeth.
- ◆ Cydweithredu'n llawn â'r gwasanaethau brys. Cynnig cymorth yw eu gwaith. Aros yn ddigyffro a gwrandao ar y cyfarwyddiadau y maent yn eu rhoi os cewch eich symud o'ch cartref am unrhyw reswm.



COLLI SEILWAITH HANFODOL

Seilwaith hanfodol yw'r enw ar y gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt mewn cymdeithas ac economi fodern.

Maent yn cynnwys trydan, nwy, dŵr yfed, telegyfathrebu, olew a thanwydd.



Goblygiadau:

- ◆ Dim dŵr yfed.
- ◆ Cartrefi heb drydan/nwy/olew a hynny'n cyfyngu ar allu pobl i baratoi bwyd ac aros yn gynnes.



Beth rydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- ◆ Cydweithio â chwmnïau cyfleustodau i reoli toriadau ar gyflenwadau.
- ◆ Datblygu cynlluniau amlasiantaethol i reoli ymyriadau tymor hwy â gwasanaethau.
- ◆ Dynodi preswylwyr diamddiffyn a all fod ag angen cymorth ychwanegol.



Beth ddylech chi ei wneud?

- ◆ Cadw rhifau ffôn ar gyfer cysylltu â'r cwmnïau cyfleustodau.
- ◆ Cael gwybod ble a sut i ddiffodd cyflenwadau dŵr, nwy a thrydan yn eich cartref.
- ◆ Cadw pecyn argyfwng yn barod.
- ◆ Gwirio bod cymdogion a pherthnasau'n ddiogel.



CLEFYDAU ANIFEILIAID

Y clefydau anifeiliaid sy'n achosi'r pryder mwyaf yw'r rheini sy'n hynod heintus, yn achosi cyfraddau marwolaeth uchel ymysg da byw neu'n gallu heintio pobl.



Mae nifer o glefydau anifeiliaid wedi'i hadnabod yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys: Clwy'r Traed a'r Genau, Tafod Glas, Ffliw Adar yw'r rhai mwyaf adnabyddus.

Goblygiadau:

- ◆ Effaith ar amaethyddiaeth, y gadwyn fwyd, economi a thwristiaeth gwledig.



Beth rydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- ◆ Llunio cynlluniau amlasiantaethol i reoli achosion o glefydau anifeiliaid.
- ◆ Hybu ymwybyddiaeth o glefydau ymysg ffermwyr a gweithwyr fferm.



Beth ddylech chi ei wneud?

- ◆ Os datgenir bod achos o glefyd mewn anifeiliaid, dilyd unrhyw gyfarwyddiadau a gewch gan y llywodraeth i ddiogelu'ch da byw a chyfyngu ymlediad y clefyd.
- ◆ Brechu da byw os yw'n bosibl.



LLYGREDD

Byddai llygredd ar y morlin, mewn afonydd, ar dir neu yn yr aer yn gallu cael effaith ddifrifol ar iechyd, yr amgylchedd a'r

economi leol. Gall llygredd fod yn ganlyniad i golli olew, gollwng cemegau neu fwg o dân mawr.



Goblygiadau:

- ◆ Risg i iechyd preswylwyr lleol ac ymwelwyr.
- ◆ Difrod i'r amgylchedd a bywyd gwyllt.
- ◆ Effaith ar dwristiaeth neu amaethyddiaeth.



Beth rydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- ◆ Cadw cynlluniau amlasiantaethol ar gyfer glanhau ar ôl colli neu ollwng sylweddau er mwyn lleihau'r effaith.



Beth ddylech chi ei wneud?

- ◆ Dilyn y cyngor gan y sefydliadau sy'n ymateb, e.e. aros yn yr adeilad, cau ffenestri.
- ◆ Gwrando ar radio leol.
- ◆ Dilyn y sefydliadau sy'n ymateb i argyfwng ar y gwefannau cymdeithasol.



DIGWYDDIADAU CLUDIANT

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn dibynnu ar gysylltiadau cludiant yn ein bywyd pob dydd - i deithio'n ôl ac ymlaen i'r gwaith neu i ddefnyddio gwasanaethau hanfodol. Felly, os bydd digwyddiad neu ddamwain yn effeithio ar gysylltiadau cludiant allweddol, tebyg i gefnffyrdd neu'r A55, gall y canlyniadau fod yn bellgyrhaeddol a gallent beryglu bywyd.

Gall argyfyngau cludiant fod yn ganlyniad i ddamweiniau neu broblemau a achoswyd gan dywydd garw fel eira neu lifogydd. Bydd partneriaid allweddol, sy'n cynnwys cynghorau sir, gwasanaethau brys, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanbolbarth Cymru, cwmnïau rheilffyrdd a llongau fferi, yn cydweithio i ddarparu gwybodaeth am ddamweiniau trafndiaeth a sefydlu gwyradau trafndiaeth neu drefniadau cludiant eraill os bydd angen.

Goblygiadau:

- ◆ Amharu ar y gallu arferol i deithio.
- ◆ Anaf neu berygl i fywyd ac oedi posibl wrth i wasanaethau brys gyrraedd pobl.
- ◆ Pobl wedi'u gadael yn ddiymgeledd mewn cerbydau mewn tywydd garw.
- ◆ Effeithiau ar yr amgylchedd os bydd sylweddau peryglus yn cael eu colli/gollwng i'r amgylchedd lleol.
- ◆ Difrod posibl i adeiladau neu seilwaith.
- ◆ Effaith ar fusnesau lleol oherwydd oedi.



Beth rydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- ◆ Mae'r holl awdurdodau priffyrdd perthnasol yn cynllunio ar y cyd rhag digwyddiadau mawr ac yn cadw'r holl brif ffyrdd yn agored pan geir problemau.
- ◆ Cydweithio â chwmnïau rheilffyrdd, porthladdoedd a fferïau i gynllunio rhag digwyddiadau sy'n effeithio ar deithwyr.



Beth ddylech chi ei wneud?

- ◆ Cynllunio teithiau ymlaen llaw a gwrandao ar yr orsaf radio lleol.
- ◆ Bod â phegyn argyfwng yn eich car.
- ◆ Sicrhau bod eich cerbyd yn addas i'r ffordd fawr ac yn ddiogel a chydymffurfio â rheolau'r ffordd fawr.
- ◆ Peidio â mynd ar deithiau diangen yn ystod tywydd garw.



BOD YN BAROD YN Y CARTREF

Beth allwch chi ei wneud i baratoi'n well yn y cartref?

Yn achos y mwyafrif o argyfyngau, y cyngor syml yw aros tu mewn, gwrando ar radio leol, teledu a'r cyfryngau cymdeithasol.

Cynllunio ar gyfer argyfwng:

Er mwyn paratoi ar gyfer argyfwng, dylech gymeryd yr amser i ganfod:

- ◆ Lle a sut i ddiffodd eich cyflenwadau dwr, nwy a thrydan yn eich cartref

- ◆ Gweithdrefnau argyfwng ar gyfer eich plant yn yr ysgol
- ◆ Gweithdrefnau argyfwng yn y gweithle
- ◆ Sut y bydd y teulu yn cadw mewn cysylltiad mewn argyfwng
- ◆ Os oes angen unrhyw gymorth ar gymdogion neu deulu bregus
- ◆ Sut i wrando ar eich gorsaf radio leol.

Yn y cartref mewn argyfwng:

Os ydych gartref pan fo argyfwng yn digwydd, ceisiwch gasglu:

- ◆ Rhestr o rifau ffôn defnyddiol e.e. eich meddyg a theulu agos
- ◆ Allwedd i'r cartref a'ch cerbyd
- ◆ Pethau ymolchi a meddyginiaethau sydd ar bresgripsiwn rheolaidd
- ◆ Radio, tortsh a batris sbâr
- ◆ Pecyn cymorth cyntaf
- ◆ Radio, tortsh a batris sbâr
- ◆ Ffôn symudol
- ◆ Arian a chardiau credyd
- ◆ Boteli dwr, bwyd sy'n barod i'w fwyta.

Gadael eich cartref mewn argyfwng:

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosib y gofynnir i chi adael eich cartref gan y gwasanaethau brys. Os yw hyn yn digwydd, gadewch cyn gynted â phosib.

Os oes gennych amser:

- ◆ Diffoddwch eich cyflenwadau trydan, nwy a dŵr, tynnwch unrhyw blygiau a chaewch bob drws a ffenest
- ◆ Ewch a phob eitem a restrir ar y dudalen hon
- ◆ Os ydych yn gadael mewn car, ewch a photeli dwr a blancedi gyda chi
- ◆ Ewch a'ch anifeiliaid
- ◆ Gwrandewch ar eich radio lleol am gyngor mewn argyfwng a chyfarwyddiadau
- ◆ Gadewch i'r gwasanaethau brys wybod i ble rydych am fynd a sut y gallant gysylltu â chi.

Gwrandewch ar y cyngor gan y gwasanaethau brys neu awdurdod lleol am unrhyw gamau penodol sydd angen eu cymeryd pan fo hi'n ddiogel i chi ddychwelyd adre.



BUSNESAU SY'N BAROD

Os ydych yn berchen ar fusnes neu fudiad, ydach chi wedi cysidro'r effaith o ganlyniad i argyfyngau allanol?



- ◆ Lleihad sydyn a sylweddol yn niferoedd staff
- ◆ Dim mynediad i safle neu ardal ddaearyddol.
- ◆ Colled sydyn o drydan
- ◆ Colled dros dro yng nghyflenwadau nwy, dŵr a charthffosiaeth
- ◆ Amhariad sylweddol i drafnidiaeth
- ◆ Colled o delegyfathrebu.

Oes gen eich busnes fesurau cynnal busnes mewn lle?

5 CAM I GYNNAL BUSNES:

1. Deall eich busnes

Pa rannau o'r busnes sy'n hollbwysig a pha flaenoriaeth fydddech chi'n ei roi i adfer gweithgareddau os ydynt yn methu?

2. Aseiad Risg

Pa risg sy'n wynebu eich busnes?

Cysidrwch y risgiau hyn o mewn eich aseiad risg ar gyfer y busnes. Pa weithdrefnau allech chi'i gyflwyno er mwyn lleihau'r peryg o'r risgiau hyn a'u heffeithiau.

3. Cysidrwch yr adnoddau sydd ei angen ar gyfer eich busnes

- ◆ Pobl
 - ◆ Eiddo
 - ◆ Offer
 - ◆ Gwybodaeth
 - ◆ Cyfathrebu
 - ◆ Cyflenwyr/ contractwyr allanol
4. Mae gwybodaeth mewn dogfennau yn hawdd ei ddeall parthed eich busnes a'r adnoddau sydd ei angen.
5. Darparwch hyfforddiant ar gyfer staff i gyflwyno'r cynllun cynnal busnes a'r gweithdrefnau/ rolau a gynhwysir ynddo.

Cyngor Sir Ynys Môn

01248 750057

www.ynysmon.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref

Sirol Conwy

01492 574000

www.conwy.gov.uk

Cyngor Sir Ddinbych

01824 706101

www.sirddinbych.gov.uk

Cyngor Sir y Fflint

01352 752121

www.siryfflint.gov.uk

Cyngor Gwynedd

01766 771000

www.gwynedd.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref

Sirol Wrecsam

01978 264240

www.wrecsam.gov.uk

Heddlu Gogledd Cymru

101 or 0300 330 0101

www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk

Gwasanaeth Tân ac

Achub Gogledd Cymru

01745 535 250

www.gwastan-gogcymru.org.uk

Ymddiriedolaeth GIG

Ambiwlans Cymru

01745 532900

www.ambulance.wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol

Betsi Cadwaladr

01248 384 384

www.bcu.wales.nhs.uk

Asiantaeth y Môr a

Gwylwyr y Glannau

01407 762051

www.mcga.gov.uk

Natural Resources Wales

01248 385500

www.cyfoethnaturiol-cymru.gov.uk

Galw Iechyd Cymru

0845 46 47

www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Public Health Wales

029 2074 4515

www.iechydcyhoeddus-cymru.nhs.uk

GWEFANNAU

DEFNYDDIOL

ERAILL:

www.gov.uk

www.walesprepared.org

www.cymru.gov.uk

www.metoffice.gov.uk

www.bbc.co.uk/cymru

Os bydd argyfwng,

ffoniwch 999